**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Diwygio) 2023. Rwy’n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

13 Mehefin 2023

## 1. Disgrifiad

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr terfynol. Mae'n briodol ystyried codi ffi ar fusnesau sy'n elwa ar wasanaeth i adennill costau llawn ("FCR") darparu'r gwasanaeth, yn hytrach na dibynnu ar y trethdalwr i dalu amdano. Ar hyn o bryd, mae APHA yn codi ffi ar ddefnyddwyr terfynol am nifer o wasanaethau, ond nid yw ffioedd am rai gwasanaethau yn adlewyrchu costau llawn darparu'r gwasanaethau hynny.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984, ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft. Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/646 (Cy. 120)) ("Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2018") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/650 (Cy. 122)) ("Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid 2018"), gyda'i gilydd, "Rheoliadau 2018". Mae'r diwygiadau'n addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ym maes iechyd anifeiliaid gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i adlewyrchu'r nod o adennill costau llawn y gwasanaethau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018 drwy:

- addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a ddarperir mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae'r ffioedd, lle maent yn cynyddu, yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyfartalog canolig o 41% o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn dod i rym ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023, a'r ail gynnydd yn dod i rym ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2024.

- mewnosod diffiniad o "Rheoliad Rheolaethau Swyddogol", i'w ddiffinio fel "Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion". Gwneir diwygiadau canlyniadol hefyd i Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2018 sy'n cyflwyno cyfeiriadau at Erthygl 20 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn lle Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE.

- hepgor rheoliad 5 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2018 i ddileu'r ffioedd sy'n daladwy am swp o 20 o ddogfennau adnabod gwag a gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â darparu dogfennau adnabod pasbortau anifeiliaid anwes.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 drwy:

- ddiwygio cyfeiriadau at "arolygfa ffin" i "safle rheoli ar y ffin".

- mewnosod rheoliad 2A yn Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid 2018 i egluro'r ffioedd sy'n daladwy pan gynhelir gweithgarwch dros gyfnod pan fo ffioedd gwahanol yn gymwys.

- diwygio'r diffiniad o "gynllun iechyd dofednod", sydd bellach yn cael ei ddiffinio fel "y cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n llywodraethu allforio neu symud adar neu wyau deor i'r UE, Gogledd Iwerddon neu wledydd penodedig nad ydynt yn yr UE, a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2021".

addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau salmonela. Mae'r ffioedd, lle maent yn cynyddu, yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyfartalog canolig o 53% o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn dod i rym ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023, a'r ail gynnydd yn dod i rym ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2024.

- addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod. Mae'r ffioedd yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyfartalog canolig o 21% o'r ffioedd presennol. Mae cynnydd i rai o ffioedd y cynllun iechyd dofednod yn digwydd mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn dod i rym ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023, a'r ail gynnydd yn dod i rym ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2024. Mae'r cynnydd i weddill ffioedd penodedig y cynllun iechyd dofednod yn digwydd mewn un cam, mae'r cynnydd yn berthnasol ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023.

- addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau bridio artiffisial. Mae'r ffioedd yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyfartalog canolig o 65% o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn dod i rym ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023, a'r ail gynnydd yn dod i rym ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2024.

- addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â safleoedd rheoli ar y ffin. Mae'r ffioedd yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyfartalog canolig o 34% o'r ffioedd presennol mewn un cam; mae'r cynnydd yn dod i rym ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae swyddogion o bob un o dair Gweinyddiaeth Prydain, mewn cydweithrediad ag APHA, wedi bod yn gweithio ar brosiect i adolygu ffioedd presennol APHA.

Diben yr offeryn hwn yw darparu ar gyfer diwygio ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â gwasanaethau statudol a ddarperir gan APHA, er mwyn adennill y gost lawn.

Mae APHA yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr terfynol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, hwyluso masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid drwy ystod o wasanaethau arolygu ac ardystio; cymeradwyo ac arolygu safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid a thrwyddedu digwyddiadau lle mae anifeiliaid yn ymgasglu, megis marchnadoedd a sioeau. Mae busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn amrywio o gwmnïau mawr i fusnesau bach a micro.

Mae APHA yn asiantaeth weithredol o Defra ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r gwaith o gyflawni polisïau yng Nghymru. Canlyniad peidio â chyflwyno'r newidiadau hyn fyddai bwlch yn y darpariaethau cyllido, y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn atebol amdano.

Mae data penodol i Gymru wedi cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio i amcangyfrif yr effaith ar fusnesau yng Nghymru.

## 5. Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd cyfathrebiadau cychwynnol APHA ar GOV.UK ar 18 Awst 2022. (https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money) Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth ar 10 Mawrth 2023. (APHA Fees and Charges Review 2022/2023 Update - GOV.UK (www.gov.uk)

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol - Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cwmpasu'r pum gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr OS cadarnhaol hwn:

- Rhaglen Reoli Genedlaethol-Salmonela
- Cynllun Iechyd Dofednod
- Rheolaethau Bridio Artiffisial
- Safleoedd Rheoli ar y Ffin
- Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

Ac eithrio Safleoedd Rheoli ar y Ffin (argymhellir cynnydd ar unwaith i lefelau adennill costau llawn), rydym yn gwerthuso tri opsiwn:

- Opsiwn 0-Cadw'r ffioedd presennol.
- Opsiwn 1-Cynyddu ffioedd fesul cam, gan arwain at adennill costau llawn ar ôl blwyddyn.
- Opsiwn 2-Cynyddu ffioedd i adennill costau llawn, heb fod fesul cam.

Mae'r 50% a ddyfynnir drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at 50% o'r cynnydd cyffredinol sydd ei angen i adennill y gost lawn. (h.y. nid cynnydd o 50% o'r ffioedd presennol)

Mae Trysorlys EF wedi cytuno â dull APHA o gapio amser teithio ar 90 munud ar gyfer pob ymweliad (gan gynnwys y daith yn ôl). Bydd hyn yn sicrhau nad yw busnesau sydd wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd o swyddfeydd APHA neu sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau anghysbell dan anfantais.

Bydd amser teithio yn cael ei godi o’r swyddfa maes APHA sydd agosaf i'r safle. Bydd APHA yn cyfuno ymweliadau lle bynnag y bo modd i sicrhau bod costau teithio'n cael eu lleihau.

At ddibenion Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Diwygio) 2023, mae Gweinidogion Cymru wedi capio amser teithio ar 45 munud un ffordd neu 90 munud ar gyfer pob taith ddwyffordd gan ddefnyddio unedau chwarter awr. £84 yw'r gyfradd sydd wedi'i chapio yn 2018 ar gyfer Swyddogion Iechyd Anifeiliaid (£14 fesul uned chwarter

awr X 6 uned chwarter awr) – Mae hyn yn cyfateb i £56 yr awr. £126 yw'r gyfradd sydd wedi'i chapio yn 2018 ar gyfer Swyddogion Milfeddygol (£21 fesul uned chwarter awr X 6 uned chwarter awr) – Mae hyn yn cyfateb i £84 yr awr.

Ar gyfer Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2023, ac eithrio Safleoedd Rheoli ar y Ffin, mae'r unedau chwarter awr wedi newid i £12 ar gyfer Swyddogion Iechyd Anifeiliaid a £22 ar gyfer Swyddogion Milfeddygol. Felly, y ffioedd wedi'u capio yw £72 a £132 (a chan ddefnyddio 4 uned i gyfrifo cyfradd fesul awr, £48 ac £88). Y rheswm dros y gyfradd is ar gyfer Swyddogion Iechyd Anifeiliaid yw eu bod bellach wedi'u grwpio gyda Swyddogion Gweithredol (yn hanesyddol, roedd staff maes, staff gwyddoniaeth a staff gweinyddol)

Yr unig eithriad yw Safleoedd Rheoli ar y Ffin, sy'n defnyddio £16 am bob chwarter awr (yn 2018 a 2023), ond nid oes gan Gymru unrhyw Safleoedd Rheoli ar y Ffin mewn meysydd awyr.

Rhaid i'r Llywodraeth adennill costau lle bynnag y bo modd er mwyn osgoi croesgymorthdalu gan y trethdalwr cyffredinol. Nid yw rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau'n gyfan gwbl fel ffordd o osgoi'r angen i godi ffioedd yn cael ei ystyried yn opsiwn oherwydd y risg i iechyd anifeiliaid a phobl.

O fewn y ffiniau a osodwyd gan ganllawiau Trysorlys EF, mae APHA wedi gallu capio ffioedd amser teithio ac maent hefyd yn gallu cyflwyno rhai ffioedd newydd fesul cam tuag at adennill y gost lawn. Gallai'r rhain gael eu hystyried yn opsiynau i helpu i liniaru effaith ffioedd.

## 7. Risgiau a Manteision

Mae cyllid ar gyfer cyflwyno polisïau iechyd a lles anifeiliaid yn destun pwysau sylweddol. Os bydd lefelau gwariant y llywodraeth yn gostwng, mae risg y gall gwasanaethau gael eu peryglu, gan beri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid. Mae cyflwyno ffioedd sy'n talu cost darparu'r gwasanaeth yn sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau.

- Llai o alw am y gwasanaeth os bydd rhai sectorau'r farchnad yn dod yn amhroffidiol
- Gall gynyddu'r gost i'r farchnad ddomestig a mewnforwyr
- Cynyddu'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth.

## Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Manwl

### 8. Salmonela - Rhaglen Reoli Genedlaethol (Cynnydd mewn ffioedd yn unig)

Rydym yn argymell y dylid cyflwyno'r ffioedd newydd fesul cam dros ddwy flynedd:

- 5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024 – cynnydd o 50% yn y ffioedd
- 1 Gorffennaf 2024 – "Adennill costau llawn gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiweddaraf ar gyfer codi ffioedd

Y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â ffioedd yw Offerynnau Statudol – Lloegr 2018/664,
Yr Alban 2018/177 a Chymru 2018/650.

Mae Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol ("NCP") Salmonela yn rheoli yn erbyn salmonela mewn heidiau dofednod ledled yr UE. Mae hyn yn cynnwys gwyliadwriaeth salmonela mewn heidiau ieir a thyrcwn masnachol ledled Prydain.

Rhaid i geidwaid ieir a thyrcwn dalu ffioedd am samplau "NCP" swyddogol a gesglir
o'u heidiau gan:

- yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Corff Rheoli Annibynnol (ICB) cymeradwy, ac a brofir gan APHA

Rhaid i geidwaid dalu ffioedd hefyd i dalu am gost:

- profion ychwanegol dewisol yn achos canlyniad positif anghywir tebygol (os bydd APHA yn cytuno)
- samplau y maent wedi'u cymryd y mae APHA yn eu profi (samplau gweithredwr)

Rhaid i labordai preifat cymeradwy dalu ffioedd i gael eu cymeradwyo i gynnal profion.

Oherwydd newidiadau methodoleg yn null adennill costau APHA (Cyfraddau Codi Ffioedd) ac adolygiad o'r gwaith a gyflawnir gan APHA, nid ydynt bellach yn adennill costau'r cynllun hwn yn llawn. Dangosir y cynnydd arfaethedig yn y Ffioedd yn y tabl yn yr adran isod.

Mae'r ffioedd labordy yn adlewyrchu ffioedd presennol 2022/23.

Mae tîm Ffioedd a Thaliadau APHA yn argymell cynnydd dros 12 mis (5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024) ar 50% ar gyfer yr holl ffioedd ac eithrio'r Ffioedd Ychwanegol, ac yna adennill costau llawn (fel y dangosir yn y golofn Ffioedd Arfaethedig isod) o 1 Gorffennaf 2024. Er y bydd hyn yn arwain at oedi o ran adennill costau llawn, dylai fod yn fwy derbyniol i'r cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, o ystyried maint y cynnydd. Byddai'r ddwy set o ffioedd yn cael eu nodi yn y Diwygiadau OS Cadarnhaol, fel y dangosir yn y tablau canlynol:

**Tabl 1 - Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros ddaliad ieir neu dyrcwn y mae sampl swyddogol wedi ei chymryd ohono, ei phrosesu a'i harchwilio at ddibenion Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003**

| Gweithgaredd | Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid) | Opsiwn 0<br>Ffioedd presennol | Opsiwn 1<br>Ffioedd fesul cam rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024 | Opsiwn 1<br>Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024 | Opsiwn 2<br>Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amser a dreuliwyd yn cael sampl reoli swyddogol i'w harchwilio mewn labordy (y "ffi amser" yn y Tabl hwn) (yn ogystal â'r ffioedd a bennir isod oni phennir fel arall yng ngholofn 2) – am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd | 82 | £ 9.00 | £ 12.00 | £ 12.00 | £ 12.00 |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog iechyd anifeiliaid yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y | 160 | £ 14.00 | £ 12.00 | £ 12.00 | £ 12.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gweithgareddau isod – am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at 6 uned | | | | | |
| Cymryd sampl reoli swyddogol o haid o ieir dodwy | 47 | £ 32.00 | £ 41.00 | £ 49.00 | £ 49.00 |
| Cymryd sampl reoli swyddogol o haid o ieir neu dyrcwn bridio | 43 | £ 52.00 | £ 68.00 | £ 83.00 | £ 83.00 |
| Cymryd sampl reoli swyddogol o haid o ieir bwyta, neu haid o dyrcwn pesgi | 10 | £ 72.00 | £ 95.00 | £ 117.00 | £ 117.00 |
| Archwilio sampl reoli swyddogol mewn labordy - fesul sampl a brofir (nid yw'r ffi amser yn berthnasol) | 418 | £ 14.00 | £ 18.00 | £ 21.00 | £ 21.00 |
| **Cyfansymiau** | **760** | **£13,290.00** | **£16,229.00** | **£18,724.00** | **£18,724.00** |

## Tabl 2 - Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyaeth o dan Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003

| Gweithgaredd | Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid) | Opsiwn 0<br>Ffioedd presennol | Opsiwn 1<br>Ffioedd fesul cam rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024 | Opsiwn 1<br>Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024 | Opsiwn 2<br>Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol i labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth labordy | 0 | £ 73.00 | £ 86.00 | £ 86.00 | £ 86.00 |
| Cynnal arolygiadau sicrhau ansawdd | 0 | £ 366.00 | £ 688.00 | £ 1025 | £ 1025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal profion cydweithredol ar gyfer Salmonela fel sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth fel labordy profi, a chadw'r gymeradwyaeth honno - fesul prawf | 0 | £ 34.00 | £ 44.00 | £ 44.00 | £ 44.00 |
| **Cyfansymiau** | **0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |

**Tabl 3- Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros heidiau dofednod am brofion a gynhelir o dan bwynt 4(b) o Ran D o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003**

| **Gweithgaredd** | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br><br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br><br>**Ffioedd fesul cam arfaethedig rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal profion ar saith o samplau llwch a charthion a gymerir o bob haid | 0 | £ 99.00 | £ 123.00 | £ 146.00 | £ 146.00 |
| Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar gaeca ac wyffosydd 300 o adar o bob haid | 0 | £ 2,470.00 | £ 3,203.00 | £3,936.00 | £3,936.00 |
| Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar blisgyn a chynnwys 4,000 o wyau o bob haid | 0 | £ 3,080.00 | £ 3,517.00 | £3,954.00 | £3,954.00 |
| **Cyfansymiau** | 0 | £0 | £0 | £0 | £0 |

## Amcan y polisi a'i effeithiau bwriadedig

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn darparu'r gwasanaeth NCP *salmonela* ar y diwydiant. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn hyrwyddo dyraniad gwell o adnoddau ar draws yr economi.
Yr effeithiau bwriadedig yw set deg a thryloyw o ffioedd i ddefnyddwyr y gwasanaethau, a defnydd mwy effeithlon o adnoddau cyhoeddus drwy drosglwyddo cost darparu gwasanaethau o'r trethdalwr cyffredinol i'r cwsmeriaid (ffermwyr/gweithredwyr busnesau bwyd). Mae ffermwyr a gweithredwyr busnesau bwyd yn uniongyrchol gyfrifol am gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth ar ddiogelwch bwyd a darparu bwyd diogel.

## Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau

Cymerodd APHA 100 o samplau Rheoli *Salmonela* Swyddogol yng Nghymru. (Wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid) Noder nad oedd unrhyw labordai yng Nghymru yn codi ffioedd yn unol â Thabl 2 pan gasglwyd y data. Mae hyn yr un mor berthnasol i brofion a ddangosir yn **Nhabl 3**. Y cyfraddau a ddangosir yw'r rhai sy'n cael eu diwygio yn yr OS. Mae'r cyfansymiau wedi'u gosod ar sero i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Ni ddisgwylir i'r symiau hyn newid yn sylweddol yn y dyfodol. UKAS sy'n cymeradwyo ac ailgymeradwyo labordai erbyn hyn, ond mae APHA yn cynnwys y ffioedd o fewn y ddeddfwriaeth i'w galluogi i ailgydio yn y rôl yn y dyfodol os bydd angen.

Noder nad oedd unrhyw labordai yng Nghymru yn codi ffioedd yn unol â **Thabl 2** pan gasglwyd y data. Y cyfraddau a ddangosir yw'r rhai sy'n cael eu diwygio yn yr OS, gyda'r cyfanswm wedi'i osod ar sero.

Yn seiliedig ar amseroedd ymweld a theithio, mae cost flynyddol y ffioedd presennol i fusnesau tua £142,000 y flwyddyn ym Mhrydain a £13,290 yng Nghymru. (9.4%) Y gost flynyddol o 5/7/23 fydd £16,229, yn codi i £18,724 yng Nghymru o 1/7/24. Mae'r cynnydd yn y ganran yn amrywio yn ôl pob gweithgaredd, ond mae'r cynnydd cyffredinol yn y ffioedd yng Nghymru yn 40.8% o 1/7/24.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol/newydd i fusnesau yn gysylltiedig â derbyn, prosesu a thalu anfonebau gan fod y rhain yn ffioedd presennol y mae anfonebau'n cael eu hanfon ar eu cyfer ar hyn o bryd yn y llinell sylfaen.

Mae'r diwydiant dofednod yng Nghymru wedi'i seilio ar nifer gymharol fach o gynhyrchwyr mawr. O ran nifer yr adar, mae'r diwydiant dofednod yn cael ei ddominyddu gan gynhyrchu brwyliaid (neu ieir bwrdd) ar gyfer cynhyrchu cig.

Er bod y diwydiant yng Nghymru yn fach, rhagdybir ei bod yn annhebygol y byddai busnesau'n adleoli dros y ffin gan y bydd y ffioedd yr un fath ledled Prydain.

Er bod y diwydiant yng Nghymru yn gymharol fach, mae'n cael ei ddominyddu yn bennaf gan nifer fach o gynhyrchwyr mawr a fyddai mewn sefyllfa well i amsugno'r costau, tra byddai nifer fawr o gynhyrchwyr bach yn gwneud llai o elw ac yn teimlo effaith y costau i raddau mwy helaeth. Mae'r ffioedd, o'u cymharu â throsiant ac elw cynhyrchwyr ar raddfa fawr, yn cael eu lleihau i ryw raddau gan yr arbedion maint y gall cynhyrchwyr mawr eu cyflawni.

O ystyried bod y ffioedd sy'n cael eu cymhwyso ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan APHA yn ymwneud â chanran fach o'r costau cyffredinol a ddaw i fusnesau yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, rhagdybir na fydd y cynnydd arfaethedig mewn costau yn cael effaith negyddol ar weithgarwch ym mhob maes.

O ystyried y data, argymhellir opsiwn 1, gan y bydd yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch. Byddai Opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Rhaglen Reoli Genedlaethol-Salmonela**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C5**: Ydy’r broses reoleiddio’n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 9. Cynllun Iechyd Dofednod (Cynnydd mewn ffioedd yn unig)

Rydym yn argymell y dylai'r ffioedd newydd ar gyfer sefydliadau dofednod gael eu cyflwyno fesul cam dros ddwy flynedd, ond y dylai'r holl ffioedd newydd gael eu cyflwyno o 5 Gorffennaf 2023 ar gyfer cymeradwyo labordy. (Prin yw'r effaith gyffredinol, gan fod rhai ffioedd wedi cael eu lleihau)

- 5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024– cynnydd o 50% yn y ffioedd
- 1 Gorffennaf 2024 – Adennill costau llawn gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiweddaraf ar gyfer codi ffioedd.

Mae'r Tîm Ffioedd a Thaliadau wedi adolygu Ffioedd y Cynllun Iechyd Dofednod ("PHS") yn y ddeddfwriaeth bresennol (Offerynnau Statudol – Lloegr 2018/664, Yr Alban 2018/177 a Chymru 2018/650).

Mae'r PHS yn cynnig system cofrestru a chymeradwyo sy'n galluogi sefydliadau i gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC, gan sicrhau eu bod yn gymwys i fasnachu. Mae angen i geidwaid dofednod fod yn aelodau o'r cynllun er mwyn:

- 5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024–cynnydd o 50% yn y ffioedd
- 1 Gorffennaf 2024 – Adennill costau llawn gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiweddaraf ar gyfer codi ffioedd.

APHA sy'n gyfrifol am weithredu'r PHS a chynnal y safonau gofynnol. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â cheisiadau, cymeradwyo safle, arolygiadau blynyddol a dirymiadau os oes angen. Maent yn adrodd am newidiadau i aelodaeth i'r Ganolfan Masnach Ryngwladol, Caerliwelydd, sy'n cynnal y gofrestr.

Oherwydd newidiadau methodoleg wrth adennill costau APHA (Cyfraddau Codi Ffioedd) ac adolygiad o'r gwaith a gyflawnir gan APHA, nid ydynt bellach yn adennill costau'r cynllun hwn yn llawn. Dangosir y cynnydd arfaethedig yn y Ffioedd yn y tabl yn yr adran isod.

Byddai tîm Ffioedd a Thaliadau APHA yn argymell cynnydd dros 12 mis (5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024) ar 50% ar gyfer yr holl ffioedd ac eithrio'r Ffioedd Ychwanegol, ac yna adennill costau llawn (fel y dangosir yn y golofn Ffioedd Arfaethedig isod) o 1 Gorffennaf 2024. Er y bydd hyn yn arwain at oedi o ran adennill costau llawn, dylai fod yn fwy derbyniol i'r cwsmeriaid a

rhanddeiliaid eraill, gan ystyried maint y cynnydd. Byddai'r ddwy set o ffioedd yn cael eu nodi yn y Diwygiadau OS Cadarnhaol, fel y dangosir yn yr adran isod.

| Tabl 1 - Ffioedd am gofrestru a chymeradwyo sefydliad at ddibenion y cynllun iechyd dofednod | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br><br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br><br>**Ffioedd fesul cam rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau yn y Tabl hwn (y "ffi amser" yn y Tabl hwn) (yn ogystal â’r ffioedd a restrir isod, oni phennir fel arall yng ngholofn 2) – am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd | 13 | £ 16.00 | £ 22.00 | £22.00 | £22.00 |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre aelod o’r cynllun iechyd dofednod (“aelod o’r cynllun” yn y Tabl hwn) at ddibenion y gweithgareddau isod – am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd hyd at 6 uned | 1 | £ 21.00 | £ 22.00 | £22.00 | £22.00 |
| Cofrestriad blynyddol fel aelod o gynllun | 0 | £ 55.00 | £ 82.00 | £108.00 | £108.00 |
| Cymeradwyaeth blwyddyn gyntaf ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o’r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol | 0 | £ 27.00 | £ 49.00 | £71.00 | £71.00 |
| Ailgymeradwyo blynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o’r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol | 2 | £ 56.00 | £ 62.00 | £67.00 | £67.00 |
| Ailgymeradwyo safleoedd ychwanegol haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun pan fo aelod o'r cynllun yn gwneud cais ar yr un pryd ar gyfer safleoedd lluosog, pan gynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol | 0 | £ 31.00 | £ 35.00 | £39.00 | £39.00 |
| Ailgymeradwyo blynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o’r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol - nid yw'r ffi amser yn berthnasol | 9 | £ 54.00 | £ 61.00 | £67.00 | £67.00 |
| Ailgymeradwyo safleoedd ychwanegol pan fo aelod o'r cynllun yn gwneud cais ar yr un pryd ar gyfer safleoedd lluosog, ac y cynhelir yr arolygiad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol - nid yw'r ffi amser yn berthnasol | 3 | £ 29.00 | £ 34.00 | £39.00 | £39.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansymiau** | 28 | £914.00 | £1,083.00 | £1162.00 | £1162.00 |

| **Tabl 2 Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyo at ddiben y cynllun iechyd dofednod** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br><br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** | **Amherthnasol (Gweler uchod)** | **Amherthnasol (Gweler uchod)** |
| Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol ar gyfer labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth labordy | 0 | £ 73.00 | £ £86.00 | | |
| Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â bacterioleg Salmonela (*pullorum, gallinarum ac arizonae*) - fesul prawf | 0 | £ 131.00 | £ 158.00. | | |
| Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg Salmonela (*pullorum, gallinarum*) - fesul prawf | 0 | £ 321.00 | £ 310.00 | | |
| Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg Mycoplasma mewn ieir (*gallisepticum*) - fesul prawf | 0 | £ 321.00 | £ 310.00 | | |
| Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â meithriniad Mycoplasma (*gallisepticum a meleagridis*) - fesul prawf | 0 | £ 281.00 | £ 280.00 | | |
| Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg Mycoplasma mewn tyrcwn (*gallisepticum a meleagridis*) - fesul prawf | 0 | £ 336.00 | £ 310.00. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansymiau** | 0 | £0 | £0 | | |

**Amcanion y polisi a'i effeithiau bwriadedig**

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn y gwasanaeth ar ddefnyddwyr y Cynllun Iechyd Dofednod. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn hyrwyddo dyraniad rhesymol o adnoddau ar draws yr economi. Yn dilyn adolygiad effeithlonrwydd o brosesau gwaith y cynllun a gynhaliwyd gan APHA a chyflwyno model newydd ar gyfer adennill costau llawn, cyfrifwyd ffioedd diwygiedig i'w codi ar aelodau'r cynllun. Yn ogystal, bydd costau teithio, a oedd wedi'u heithrio o'r ffioedd yn wreiddiol, bellach yn cael eu codi ar gwsmeriaid.

**Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau**

Ar hyn o bryd, mae 27 o gwmnïau yn cynrychioli 245 o safleoedd sy'n aelodau o'r cynllun ac ni ddisgwylir i hyn newid rhyw lawer yn y dyfodol. Mae'r busnesau yn amrywio o ran maint o rai bach i rai mawr. Telir aelodaeth fesul safle, felly gall un cwmni fod yn talu nifer o ffioedd aelodaeth.

Mae unrhyw aelod newydd o'r cynllun yn talu ffi cofrestru a chymeradwyo a hefyd yn gorfod talu ffi am ymweliad cymeradwyo gan Swyddog Milfeddygol APHA. Er mwyn parhau i fod yn aelod o'r cynllun, rhaid i bob safle fynd drwy weithdrefn adnewyddu sy'n cynnwys tystysgrif newydd ac o leiaf un arolygiad bob blwyddyn. Gall yr aelod ddewis am i'r arolygiad hwn gael ei gwblhau gan Swyddog Milfeddygol neu ei Filfeddyg Swyddogol (milfeddyg sector preifat sydd wedi'i awdurdodi i ymgymryd â'r gwaith hwn gan APHA).

Cafodd 14 o ymweliadau cymeradwyo'r cynllun eu cynnal yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw.

Nid oedd unrhyw labordai yng Nghymru yn gorfod talu ffioedd yn unol â Thabl 2 pan gasglwyd y data. Y cyfraddau a ddangosir yw'r rhai sy'n cael eu diwygio yn yr OS, gyda'r cyfansymiau wedi'u gosod ar sero.

Yn seiliedig ar amseroedd ymweld a theithio, mae cost flynyddol y ffioedd presennol i fusnesau tua £25,000 y flwyddyn ym Mhrydain a £914 yng Nghymru. (4%) Y gost flynyddol o 5/7/23 fydd £1083, yn codi i £1,162 ar 1/7/24. Mae'r cynnydd canrannol yn amrywio yn ôl y gweithgaredd, ond mae'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd yng Nghymru yn 27.1% o 01/07/24.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau yn gysylltiedig â derbyn, prosesu a thalu anfonebau gan fod y rhain yn ffioedd presennol y mae anfonebau'n cael hanfon ar eu cyfer ar hyn o bryd yn y llinell sylfaen.

O ystyried y data, argymhellir opsiwn 1, gan y bydd yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch. Byddai opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Cynllun Iechyd Dofednod**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 10. Rheolaethau Bridio Artiffisial (Cynnydd mewn ffioedd yn unig)

Rydym yn argymell y dylid cyflwyno'r ffioedd newydd fesul cam dros ddwy flynedd:

- 5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024–Cynnydd o 50% yn y ffioedd
- 1 Gorffennaf 2024 – Adennill costau llawn gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiweddaraf ar gyfer codi ffioedd

Mae'r Tîm Ffioedd a Thaliadau wedi adolygu'r Ffioedd Rheolaethau Bridio Artiffisial yn y ddeddfwriaeth bresennol (Offerynnau Statudol - Lloegr 2018/664, Yr Alban 2018/177 a Chymru 2018/650).

Ar hyn o bryd, mae’r ffioedd hyn wedi'u cyfyngu i 2 fath o anifail, sef gwartheg (Semen ac Embryonau) a moch (Semen). Yn hytrach na chael cynllun OS ar wahân ar gyfer pob un o'r mathau o anifeiliaid a'r mathau o gynnyrch, bydd y ffioedd presennol yn cael eu symleiddio fel bod un cynllun yn cwmpasu pob anifail a phob cynnyrch. Bydd y ffi yn cynnwys:

- cyfradd fesul hanner awr ar gyfer yr ymweliadau.
- ffioedd ar gyfer profion labordy yn unol â ffioedd Weybridge (nid yw hyn wedi newid o OS 2018)
- bydd yr amser a gyfrifir yn gyfuniad o'r amser a gymerir o’r holl gynlluniau arfaethedig.

Oherwydd newidiadau methodoleg yn null adennill costau APHA (Cyfraddau Codi Ffioedd) ac adolygiad o'r gwaith a gyflawnir gan APHA, nid ydynt bellach yn adennill costau'r cynllun hwn yn llawn.

Dangosir y cynnydd arfaethedig yn y Ffioedd yn y tablau yn yr adran isod.

Mae tîm Ffioedd a Thaliadau APHA yn argymell cynnydd dros 12 mis (5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024) o 50% ar gyfer yr holl ffioedd ac eithrio'r Ffioedd Ychwanegol, ac yna adennill costau llawn (fel y dangosir yn y golofn Ffioedd Arfaethedig isod) o 1 Gorffennaf 2024. Er y bydd hyn yn arwain at oedi o ran adennill costau llawn, dylai fod yn fwy derbyniol i'r cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, gan ystyried maint y cynnydd. Byddai'r ddwy set o ffioedd yn cael eu nodi yn y Diwygiadau OS Cadarnhaol, fel y’u dangosir yn yr adran isod.

Tablau fesul cynllun yn dangos y ffioedd arfaethedig ar gyfer adennill costau llawn (i'w gweithredu o fis Gorffennaf 2023) o gymharu â'r Ffioedd Presennol a'r ffioedd sy'n rhagdybio'r argymhelliad ar gyfer cyflwyno'r cynnydd mewn ffioedd dros ddwy flynedd

| Semen Buchol - Ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr a gweithredwyr o dan Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br><br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br><br>**Ffioedd fesul cam arfaethedig rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau penodedig yn y tabl hwn (yn ogystal â phob un o'r ffioedd a restrir isod) - mae'r ffioedd am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd | 0 | £ 16.00 | £ 22.00 | £ 22.00 | £ 22.00 |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau isod - mae ffioedd am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 6 gwaith y ffi | 0 | £ 21.00 | £ 22.00 | £ 22.00 | £ 22.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth o dan reoliadau 7 a 10 o Reoliadau 2008 ar gyfer defnydd mewn canolfan gasglu ddomestig neu mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu | 29 | £ 20.00 | £ 27.00 | £ 33.00 | £ 33.00 |
| Ystyried cais o dan reoliad 7 o Reoliadau 2008 i gymeradwyo anifail buchol i'w ddefnyddio mewn canolfan gasglu drwyddedig | 3 | £ 26.00 | £ 35.00 | £44.00 | £ 44.00 |
| Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gwarantîn drwyddedig o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008 | 1 | £ 29.00 | £ 39.00 | £48.00 | £ 46.00 |
| Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gasglu drwyddedig, neu ganolfan storio drwyddedig, o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008 | 0 | £ 27.00 | £ 37.00 | £46.00 | £ 46.00 |
| Cynnal archwiliad o ganolfan semen buchol o dan reoliad 40 o Reoliadau 2008 | 1 | £ 17.00 | £ 23.00 | £28.00 | £ 28.00 |
| Cynnal archwiliad rheolaidd o anifail buchol cymeradwy at ddefnydd domestig neu i'w ddefnyddio ar gyfer masnach gydag aelod-wladwriaeth o dan Reoliad 33 o Reoliadau 2008 | 0 | £ 23.00 | £ 31.00 | £38.00 | £ 38.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansymiau** | **34** | **£702.00** | **£948.00** | **£1163.00** | **£1163.00** |

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Semen Buchol**

**Cefndir**

Mae rheolaethau ar Semen Buchol yn angenrheidiol i atal lledaeniad clefydau anifeiliaid penodol a drosglwyddir drwy semen a all effeithio ar les economaidd y diwydiant da byw. Mae APHA yn trwyddedu canolfannau ffrwythloni artiffisial (AI), yn cymeradwyo ac yn samplu anifeiliaid sy'n cyflenwi semen ac yn rheoli'r amodau ar gyfer casglu, adnabod ac olrhain semen. Mae hwn yn wasanaeth statudol a ddarperir gan APHA sydd, drwy sicrhau statws iechyd, yn hwyluso masnach ac yn annog allforion. Ar hyn o bryd, codir ffioedd ar ddefnyddwyr am wahanol wasanaethau fel y nodir isod.

Ar ôl i APHA gynnal adolygiad effeithlonrwydd o brosesau gwaith Semen Buchol i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl a chyflwyno model newydd ar gyfer adennill costau llawn, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF, cyfrifwyd ffioedd diwygiedig i'w codi ar gwsmeriaid. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu codi ledled Prydain.

**Amcanion y polisi a'i effeithiau bwriadedig**

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn trwyddedu a chymeradwyo canolfannau Semen Buchol. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn hyrwyddo dyraniad rhesymegol o adnoddau ar draws yr economi.

Yn dilyn adolygiad effeithlonrwydd o brosesau gwaith Semen Buchol a gynhaliwyd gan APHA a chyflwyno model newydd ar gyfer adennill costau llawn, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF, cyfrifwyd ffioedd diwygiedig i'w codi ar aelodau'r cynllun. Yn ogystal, bydd costau teithio a oedd wedi'u heithrio yn wreiddiol o'r ffioedd bellach yn cael eu codi ar gwsmeriaid.

O'u gweithredu, bydd y ffioedd newydd fel arfer yn uwch na'r ffioedd presennol, gan arwain at gost uwch i fusnesau.

**Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau**

Ar hyn o bryd, mae 3 chwmni yn cynrychioli'r sector Semen Buchol ym Mhrydain, ac ni ddisgwylir i hyn newid rhyw lawer yn y dyfodol. Mae'r busnesau hyn o faint canolig. Mae un cyfleuster cymeradwy yng Nghymru ar gyfer cwmni sydd wedi'i leoli yn Swydd Gaer. Cafwyd 33 o geisiadau ar gyfer cwmnïau o Gymru yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn seiliedig ar amseroedd ymweld a theithio, cost flynyddol y ffioedd presennol i fusnesau yw tua £27,000 a £702 yng Nghymru. (2.6%) Y gost flynyddol o 5/7/23 fydd £948, yn codi i £1,163 ar 1/7/24. Mae'r cynnydd canrannol yn amrywio yn ôl y gweithgaredd, ond mae'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd yng Nghymru yn 65.6% o 1/7/24.

O ystyried y data, argymhellir opsiwn 1, gan y bydd yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch.

Byddai opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Semen Buchol**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy’r broses reoleiddio’n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Semen Moch**

Ni ddarperir tabl gan na anfonebwyd unrhyw gostau yng Nghymru yn y cyfnod perthnasol. (Gweler isod)

**Cefndir**

Mae rheolaethau ar semen moch yn angenrheidiol i atal lledaeniad clefydau anifeiliaid penodol a drosglwyddir drwy semen a all effeithio'n andwyol ar les economaidd y sector moch. Mae APHA yn trwyddedu canolfannau ffrwythloni artiffisial (AI), yn cymeradwyo ac yn samplu anifeiliaid ac yn rheoli'r amodau ar gyfer casglu, adnabod ac olrhain semen. Mae hwn yn wasanaeth statudol a ddarperir gan APHA sydd, drwy warantu statws iechyd semen ac ati, yn hwyluso masnach ac yn annog allforion. Ar hyn o bryd, codir ffioedd ar ddefnyddwyr am wahanol wasanaethau, a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2013, fel y nodir isod.

Ar ôl i APHA gynnal adolygiad effeithlonrwydd o brosesau gwaith semen moch i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl a chyflwyno model newydd ar gyfer adennill costau llawn, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF (Rheoli Arian Cyhoeddus), cyfrifwyd ffioedd diwygiedig i'w codi ar gwsmeriaid. Yn ogystal, bydd costau teithio a oedd wedi'u heithrio o'r ffioedd yn wreiddiol bellach yn cael eu cynnwys a'u codi ar gwsmeriaid ar sail wirioneddol hyd at gyfradd wedi'i chapio o 90 munud. Bydd y ffioedd diwygiedig hyn yn cael eu codi ledled Prydain.

**Amcanion y polisi a'i effeithiau bwriadedig**

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn trwyddedu a chymeradwyo canolfannau semen moch. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae codi ffioedd ar gyfraddau adennill costau llawn yn hyrwyddo dyraniad rhesymegol o adnoddau ar draws yr economi.

O'u gweithredu, bydd y ffioedd newydd fel arfer yn uwch na'r ffioedd presennol, gan arwain at gost uwch i fusnesau.

**Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau**

Ar hyn o bryd mae 5 cwmni yn cynrychioli'r sector Semen Moch ym Mhrydain. Mae'r busnesau hyn o faint canolig. Nid oedd unrhyw gwsmeriaid wedi'u cofrestru yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw.

Cyfanswm cost y ffioedd presennol i fusnesau yw tua £50,000 y flwyddyn. Er nad oes unrhyw fusnesau yng Nghymru yn cael eu heffeithio ar hyn o bryd, mae hwn yn gynllun Rheolaethau Bridio Artiffisial sy'n bodoli eisoes. (Ynghyd â Semen Buchol ac Embryonau Buchol) Mae angen newidiadau i sicrhau bod unrhyw gwsmeriaid Rheolaethau Bridio Artiffisial Moch yng Nghymru yn y dyfodol yn cael eu trin yr un fath â gweddill Prydain.

Er bod y diwydiant yng Nghymru yn gymharol fach, mae'n cael ei ddominyddu yn bennaf gan nifer fach o gynhyrchwyr mawr a fyddai mewn sefyllfa well i amsugno'r costau, tra byddai nifer fawr o gynhyrchwyr bach yn gwneud llai o elw ac yn teimlo effaith y costau i raddau mwy helaeth. Mae'r ffioedd, o'u cymharu â throsiant ac elw cynhyrchwyr ar raddfa fawr, yn cael eu lleihau i ryw raddau gan yr arbedion maint y gall cynhyrchwyr mawr eu cyflawni.

O ystyried y data, argymhellir Opsiwn 1, gan y bydd hyn yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch. Byddai Opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Semen Moch**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy’r broses reoleiddio’n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol-Embryonau Buchol**

Mae rheolaethau ar Embryonau Buchol yn angenrheidiol i atal lledaeniad clefydau anifeiliaid penodol a drosglwyddir drwy drosglwyddo embryonau ac sy'n effeithio ar les economaidd y sector gwartheg. Mae APHA yn cynnal arolygiadau ac yn cymeradwyo timau casglu, cynhyrchu a throsglwyddo embryonau. Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr y gwasanaethau hyn yn gorfod talu ffioedd a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2013.

Ar ôl i APHA gynnal adolygiad effeithlonrwydd o brosesau gwaith Embryonau Buchol i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl a chyflwyno model newydd ar gyfer adennill costau llawn, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF, cyfrifwyd ffioedd diwygiedig i'w codi ar gwsmeriaid. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu codi ledled Prydain.

**Amcanion y polisi a'i effeithiau bwriadedig**

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn trwyddedu a chymeradwyo Timau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) a chanolfannau storio. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn hyrwyddo dyraniad rhesymegol o adnoddau ar draws yr economi.

**Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau**

Mae'r diwydiant embryonau buchol yn fach iawn. Ar hyn o bryd, mae 8 Tîm Casglu a Chynhyrchu Embryonau Buchol wedi'u cymeradwyo, ac ni ddisgwylir i hyn newid ryw lawer yn y dyfodol. Mae'r busnesau hyn o faint canolig. Mae un busnes wedi'i gymeradwyo ar gyfer casglu embryonau yng Nghymru. Cafwyd 30 o geisiadau am gymeradwyaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw.

Ar ran yr Awdurdod Cymwys, mae APHA yn cynnal ystod o wasanaethau i'r diwydiant hwn mewn perthynas â chymeradwyo safleoedd Embryonau Buchol, timau cynhyrchu, labordai a chanolfannau storio.

Yn seiliedig ar amseroedd ymweld a theithio, cost flynyddol y ffioedd presennol i fusnesau yw tua £13,000 a £2,300 yng Nghymru. (15.3%) Y gost flynyddol o 5/7/23 fydd £2,872, yn codi i £2,978 ar 1/7/24. Mae'r cynnydd canrannol yn amrywio yn ôl y gweithgaredd, ond mae'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd yng Nghymru yn 28.7% o 1/7/24.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau sy'n gysylltiedig â derbyn, prosesu a thalu anfonebau gan fod y rhain yn daliadau presennol y mae anfonebau'n cael eu hanfon ar eu cyfer ar hyn o bryd yn y llinell sylfaen.

O ystyried y data, argymhellir opsiwn 1, gan y bydd yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch. Byddai opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

| **Embryonau Buchol - (casglu, cynhyrchu a throsglwyddo) - Ffioedd sy'n daladwy o dan** Reoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995. **Rheoliadau 1995** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0 Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1 Ffioedd Fesul Cam Arfaethedig rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1 Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2 Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol wrth gyflawni'r gweithgareddau penodedig yn y tabl hwn (yn ogystal â phob un o'r ffioedd a nodir isod) - mae'r ffioedd am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd | 63 | £ 16.00 | £ 22.00 | £ 22.00 | £ 22.00 |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau a nodir isod - mae ffioedd am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 6 gwaith y ffi | 45 | £ 21.00 | £ 22.00 | £ 22.00 | £ 22.00 |
| Ystyried cais i gymeradwyo neu ailgymeradwyo<br>- tîm trosglwyddo embryonau buchol:<br>o dan reoliad 4 o Reoliadau 1995<br>- storfa o dan reoliad 16 o Reoliadau 1995:<br>- storfa, a goruchwylydd y storfa honno, o dan reoliadau 16 a 19 o Reoliadau 1995: neu<br>- un tîm casglu neu gynhyrchu embryonau buchol (gan gynnwys arolygu labordy neu beidio) o dan reoliad 6 neu 7 o Reoliadau 1995 | 2 | £ 28.00 | £ 38.00 | £ 47.00 | £ 47.00 |
| Ystyried cais gan yr un ceisydd i gymeradwyo pob labordy neu storfa ychwanegol pan gaiff yr arolygiad ei gwblhau ar yr un diwrnod | 2 | £ 9.00 | £ 13.00 | £ 16.00 | £ 16.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystyried cais i ailgymeradwyo labordy neu storfa yn dilyn unrhyw newidiadau | 0 | £ 25.00 | £ 34 .00 | £42.00 | £ 42.00 |
| Cynnal arolygiad rheolaidd o gofnodion un tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ac ailarolygu un labordy neu storfa | 14 | £1700 | £23.00 | £ 28.00 | £ 28.00 |
| Cynnal arolygiad rheolaidd o gofnodion pob tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ychwanegol, ac ailarolygu pob labordy neu storfa ychwanegol | 12 | £4.00 | £ 6.00 | £ 7.00 | £ 7.00 |
| **Cyfansymiau** | **138** | **£2,313.00** | **£2,872.00** | **£2,978.00** | **£2,978.00** |

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Embryonau Buchol**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 11. Safleoedd Rheoli ar y Ffin (Cynnydd mewn ffioedd a newid i drefniadau codi ffioedd)

### Cefndir

Mae ffioedd ar gyfer gwiriadau Safleoedd Rheoli ar y Ffin ar lwythi o anifeiliaid byw o drydydd gwledydd yn cael eu cynyddu.

Bydd y ffioedd yn cynyddu i gyfraddau adennill costau llawn o 5 Gorffennaf 2023.

### Amcan y polisi a'i effeithiau bwriadedig

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn darparu archwiliadau milfeddygol ar y ffin ar y diwydiant. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae'n hyrwyddo dyraniad rhesymegol adnoddau ar draws yr economi.

### Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau

Ni ddarperir unrhyw dabl gan nad oes unrhyw Safleoedd Rheoli ar y Ffin yng Nghymru ar hyn o bryd, felly nid oes modd cynnal asesiad effaith.

O dan y ffioedd presennol, cyfanswm y refeniw a godir/cyfanswm y gost i fusnes yw tua £737,000 y flwyddyn ar draws Prydain. Er nad oes meysydd awyr sy'n mewnforio anifeiliaid yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer Safleoedd Rheoli ar y Ffin newydd mewn porthladdoedd, gan gynnwys y rhai yng Nghymru i gwmpasu anifeiliaid sy'n cael eu mewnforio o Weriniaeth Iwerddon. Nid oes data ar gael am nifer yr anifeiliaid byw sy'n cael eu mewnforio drwy borthladdoedd Cymru mewn blwyddyn arferol ar hyn o bryd. Mae'n anhysbys hefyd i ba raddau y gallai creu Safleoedd Rheoli ar y Ffin ochr yn ochr â phorthladdoedd yng Nghymru newid patrymau mewnforio.  O ganlyniad, nid oes modd amcangyfrif y cynnydd mewn costau i fusnesau o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ar ben hynny, mae'r prif gynnydd mewn costau y bydd mewnforwyr yn ei wynebu yn ganlyniad i Brexit (a'r gofyniad newydd ar gyfer gwiriadau yn y Safleoedd Rheoli ar y Ffin sydd newydd eu sefydlu - sy'n rhywbeth ar wahân i'r Rheoliadau hyn), ac mae effaith y cynnydd mewn ffioedd a achosir gan y Rheoliadau hyn yn gymharol fach o gymharu.

Mae mewnforwyr anifeiliaid byw yn amrywio o unigolion i gwmnïau fferyllol ar raddfa fawr (pryfed). Mae mewnforion yn gysylltiedig â sectorau manwerthu yn bennaf (yn hytrach na ffermwyr), gan gynnwys mewnforio pysgod ac ymlusgiaid trofannol ar gyfer siopau anifeiliaid anwes/y farchnad hobïau ac wyau brithyll ar gyfer pysgodfeydd. Bob blwyddyn, mae tua 5,000 o sefydliadau ac unigolion yn mewnforio anifeiliaid byw i Brydain o drydedd wlad. O'r mewnforion hyn, mae tua 90% gan unigolion a 10% gan sefydliadau busnes.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Safleoedd Rheoli ar y Ffin**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy’r broses reoleiddio’n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 11. Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cynnydd mewn ffioedd a newid i drefniadau codi ffioedd)

Rydym yn argymell y dylid cyflwyno'r ffioedd newydd fesul cam dros ddwy flynedd:

- 5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024 – cynnydd o 50% yn y ffioedd
- 1 Gorffennaf 2024 – adennill costau llawn gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiweddaraf ar gyfer codi ffioedd

Mae'r Tîm Ffioedd a Thaliadau wedi adolygu'r Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn y ddeddfwriaeth bresennol (Offerynnau Statudol - Lloegr 2018/666, Yr Alban 2018/176 a Chymru 2018/646).

Oherwydd newidiadau methodoleg yn null adennill costau APHA (Cyfraddau Codi Ffioedd) ac adolygiad o'r gwaith a gyflawnir gan APHA, nid ydynt bellach yn adennill costau'r cynllun hwn yn llawn. Dangosir y cynnydd arfaethedig yn y Ffioedd yn y tabl yn yr adran isod.

Yn ogystal, hoffai APHA symleiddio'r ffioedd Ymweliad Rheolaidd, fel eu bod yr un fath, ta faint bynnag o ffioedd a ddisgwylir drwy'r flwyddyn. Pan gyflwynwyd OS 2018, y rhagdybiaeth oedd y byddai'r cwsmer yn talu am becyn o ymweliadau ymlaen llaw; nid yw hyn wedi digwydd, felly mae APHA yn anfonebu ar gyfer pob ymweliad. Hoffem newid y geiriad a'r ffioedd yn yr OS i gyfateb i'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan yr asiantaeth. Ni fydd angen tynnu sylw'r cwsmer at hyn oherwydd, er bod hyn yn wahanol i'r hyn a ddangosir yn yr OS, nid yw'n newid o'r hyn sydd ar waith.

Mae tîm Ffioedd a Thaliadau APHA yn argymell cynnydd dros 12 mis (5 Gorffennaf 2023 tan 30 Mehefin 2024) ar 50% ar gyfer yr holl ffioedd ac eithrio'r Ffioedd Ychwanegol, ac yna adennill costau llawn (fel y dangosir yn y golofn Ffioedd Arfaethedig isod) o 1 Gorffennaf 2024. Er y bydd hyn yn arwain at oedi o ran adennill costau llawn, dylai fod yn fwy derbyniol i'r cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, gan ystyried maint y cynnydd. Byddai'r ddwy set o ffioedd yn cael eu nodi yn yr OS Cadarnhaol.

| **Tabl-Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am gais i gael cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol o dan Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE (Tabl wedi'i gynnwys er gwybodaeth. Ni chofnodwyd cyfeintiau ar gyfer Cymru)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br>**Ffioedd fesul cam rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1**<br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2**<br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 0 | £ 21.00 | £22.00 | £22.00 | £22.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 0 | £14.00 | £12.00 | £12.00 | £12.00 |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben gweithgareddau a nodir yn y Tabl hwn ar ôl 60 munud cyntaf ymweliad safle i asesu addasrwydd i gael cymeradwyaeth | 0 | £16.00 | £22.00 | £22.00 | £22.00 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben gweinyddu ymweliadau atodol a gweithgareddau cysylltiedig | 0 | £6.00 | £11.00 | £11.00 | £11.00 |
| Ffi weinyddol atodol am gyflwyno 7 anfoneb / 13 anfoneb ar gyfer ymweliadau atodol neu weithgareddau cysylltiedig | 0 | £13.00 | £21.00 | £21.00 | £21.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa rendro sy'n prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £1785.00 | £2134.50 | £2484.00 | £2484.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn gompost, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £951.00 | £1147.00 | £1343.00 | £1343.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn fio-nwy, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £951.00 | £1147.00 | £1343.00 | £1343.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrin sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar ôl eu casglu, drwy weithrediadau megis didoli, torri, oeri, rhewi, halltu, tynnu crwyn neu dynnu deunydd risg penodedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £485.00 | £586.00 | £687.00 | £687.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â storio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion deilliedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £485.00 | £586.00 | £687.00 | £687.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £395.00 | £476.00 | £557.00 | £557.00 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa losgi, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 0 | £395.00 | £476.00 | £557.00 | £557.00 |
| **Cyfansymiau** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| **Tabl-Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am ymweliadau archwilio safle a gynhelir o dan Erthygl 20 o Reoliad Rheolaeth yr UE** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyfeintiau Cymru (wedi'u haddasu i lefelau cyn Covid)** | **Opsiwn 0**<br><br>**Ffioedd presennol** | **Opsiwn 1**<br><br>**Ffioedd fesul cam rhwng 5 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024** | **Opsiwn 1**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 1 Gorffennaf 2024** | **Opsiwn 2**<br><br>**Adennill costau llawn o ffioedd o 5 Gorffennaf 2023** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 443 | £21.00 | £22.00 | £22.00 | £22.00 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 0 | £14.00 | £11.00 | £11.00 | £11.00 |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud | 0 | £16.00 | £22.00 | £22.00 | £22.00 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud | 1019 | £8.00 | £12.00 | £12.00 | £12.00 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn trefnu ymweliadau safle ac yn ymdrin ag unrhyw bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r ymweliad | 0 | £6.00 | £11.00 | £11.00 | £11.00 |
| Ffioedd ar gyfer cynnal 30 munud cyntaf ymweliad archwilio safle lle mae archwiliad blynyddol neu bob dwy flynedd o sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd yn ofynnol o dan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol | 77 | £157.00 | £188.00 | £219.00 | £219.00 |
| Ffi am gynnal 30 munud cyntaf pob un o'r pedwar ymweliad archwilio safle i archwilio sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd pan fo arolygiad chwarterol yn ofynnol o dan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol - fesul ymweliad | 47 | £561.00 | £752.00 | £876.00 | £876.00 |
| Ffi am gynnal 30 munud cyntaf pob un o'r deuddeg ymweliad archwilio safle ar gyfer sefydliad a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd lle mae archwiliadau misol yn ofynnol o dan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol - fesul ymweliad | 6 | £1658.00 | £2256.00 | £2628.00 | £2628.00 |
| Cyfansymiau | 1592 | £71973.00 | £85330.00 | £95777.00 | £95777.00 |

**Amcanion y polisi a’i effeithiau bwriadedig.**

Amcan y polisi hwn yw codi costau llawn casglu, cludo, storio, trin, prosesu a defnyddio neu waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar y diwydiant. Mae hyn yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaethau a threthdalwyr. Yn fwy cyffredinol, mae'n hyrwyddo dyraniad rhesymegol o adnoddau ar draws yr economi.

**Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnesau**

Yn hanesyddol, mae 70-90% o weithfeydd cofrestredig wedi bod yn fusnesau bach a chanolig. Ni fydd modd hepgor neu ddarparu mesurau lliniaru sylweddol i'r busnesau hyn gan y byddai hyn yn tanseilio amcanion y polisi codi ffioedd. Gallai hefyd effeithio'n andwyol ar sefyllfa gystadleuol busnesau mwy o faint. Mae APHA yn cynnig darparu mesurau lliniaru rhannol drwy gyflwyno cynnydd dros ddwy flynedd fel y dangosir yn y tabl isod.

Yn 2017, cynhaliodd APHA 2,773 o archwiliadau seiliedig ar risg o safleoedd cymeradwy, a 1,501 o archwiliadau seiliedig ar risg o weithfeydd neu weithredwyr cofrestredig. Cynhaliwyd 130 o ymweliadau archwilio a chymeradwyo yng Nghymru yn ystod y cyfnod perthnasol. O ystyried bod y ffioedd sy'n cael eu cymhwyso ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan APHA yn ymwneud â chanran fach o'r costau cyffredinol a ddaw i fusnesau yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, rhagdybir na fydd y cynnydd arfaethedig mewn costau yn cael effaith negyddol ar weithgarwch ym mhob maes.

Mae'n debygol y bydd rhai o'r costau'n cael eu trosglwyddo o'r busnesau hynny y codir ffioedd arnynt i'w cwsmeriaid i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi - megis cynhyrchwyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid (e.e. ffermwyr da byw, lladd-dai a gweithgynhyrchwyr bwyd), ac ymlaen i fanwerthwyr a'u cwsmeriaid.  At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, fodd bynnag, rydym yn priodoli ffioedd i'r gweithfeydd a'r proseswyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid hynny y codir ffioedd arnynt yn gyntaf.

Nid ydym yn disgwyl y bydd gostyngiad mewn cystadleurwydd na nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau sgil-gynhyrchion anifeiliaid o ganlyniad i ffioedd, gan mai cyfran gymharol fach o gyfanswm cost sefydlu busnes newydd yw'r gost untro o gymeradwyo busnesau newydd, ac ni ddylai costau archwilio parhaus beri problem, yn enwedig os yw busnesau'n gweithio gydag APHA i leihau eu costau cydymffurfio cyn y newidiadau hyn.

Yn seiliedig ar amseroedd ymweld a theithio, cost flynyddol y ffioedd presennol i fusnesau yw tua £460,000 a £72,000 yng Nghymru. (15.7%) Y gost flynyddol o 5/7/23 fydd £85,330, yn codi i £95,777 ar 1/7/24. Mae'r cynnydd canrannol yn amrywio yn ôl y gweithgaredd, ond mae'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd yng Nghymru yn 33% o 1/7/24.

O ystyried y data, argymhellir opsiwn 1, gan y bydd yn rhoi amser i fusnesau addasu i'r ffioedd uwch. Byddai opsiwn 2 yn arwain at adennill costau llawn ar unwaith, gan ddileu'r cyfle i fusnesau addasu i'r newidiadau, felly nid dyma'r dull a ffefrir.

**Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth – Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## Crynodeb Cyffredinol

Ein hamcangyfrif gorau o gost gyffredinol y newidiadau yng Nghymru yw tua £30,600 y flwyddyn (o 1 Gorffennaf 2024). Mae'r rhan fwyaf (dros 75%) o'r cynnydd mewn costau blynyddol yn ymwneud â'r ymweliadau archwilio rheolaidd arferol sydd eu hangen ar sefydliadau neu weithfeydd cymeradwy neu gofrestredig o dan Reoliad (EU) 2017/625 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd costau'n cynyddu'n raddol yn hytrach na gosod y cynnydd llawn mewn costau ar fusnesau mewn un flwyddyn. Disgwylir i hyn, ynghyd â'r ffaith bod costau'n cael eu lledaenu ar draws nifer o wahanol sectorau a busnesau, leihau effaith andwyol y cynnydd mewn costau ar fusnesau unigol.

Disgwylir i'r newidiadau arwain at ganlyniad mwy teg lle mae cost darparu gwasanaethau yn cael ei throsglwyddo o'r trethdalwr cyffredinol i ddefnyddwyr a buddiolwyr uniongyrchol y gwasanaethau perthnasol.